**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 01-00(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Ionawr 2000 |
| **Amser:** | 9:00am - 12:20 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## Presennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Elin Jones, fel amnewidiad i Ieuan Wyn Jones | Ceredigion |
| Carwyn Jones | Pen-y-Bont ar Ogwr |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Cyngor Cefn Gwlad Cymru* | |
| Dr Malcolm Smith | Uwch Gyfarwyddwr |
| Dr John Taylor | Cyfarwyddwr Polisi Cefn Gwlad |
| Brian Pawson | Swyddog Polisi Amaeth-amgylcheddol |

*Swyddogion*

| | |
|---|---|
| Huw Brodie | Pennaeth yr Adran Amaethyddiaeth |
| Bob Macey (Eitemau 2 a 3) | Pennaeth Adain yr Amgylchedd |
| Alan Starkey (Eitemau 2 a 6) | Adain Polisi Amaethyddiaeth |
| Peter Fullerton (Eitem 3) | Pennaeth yr Adain Datblygiad Trefol a Gwledig |
| Mike Dunn (Eitemau 4 a 6) | Pennaeth Adain Polisi Amaethyddiaeth |
| Rosemary Thomas (Eitemau 4 a 5) | Adain Polisi Amaethyddiaeth |
| Peter Jones (Eitem 5) | Swyddog y Cwnsler Cyffredinol |

*Yr ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones, yr oedd Elin Jones yn amnewidiad iddo. Roedd Glyn Davies yn hwyr ond roedd yn bresennol ar gyfer rhan olaf y cyfarfod.

**Eitem 2: Tir Gofal -** Papur ARD 01-00(p.1)

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Dir Gofal gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr CCGC a diolch iddynt am eu gwaith ar brosesu ceisiadau Tir Gofal drwy'r llwybr cyflym cyn y Nadolig. Dechreuodd Dr Smith y cyflwyniad drwy wneud tri phwynt:

- Cynllun y Cynulliad oedd Tir Gofal. CCGC oedd ei unig asiantau. Gallai'r Cynulliad ddiwygio'r cynllun pe dymuna wneud hynny yn amodol ar gytundeb y Comisiwn Ewropeaidd (CE);
- Prif amcan Tir Gofal oedd hyrwyddo arfer amaethyddol a oedd o fudd i'r amgylchedd. Ymhlith y buddiannau y byddai'n eu cyflwyno roedd bioamrywiaeth, mynediad ac enillion o ran tirwedd;
- Roedd CCGC wedi cynllunio Tir Gofal gan gadw'r gofyniad archwilio mewn cof fel y gellid ei reoli'n effeithlon ac yn effeithiol a oedd yn bwysig iawn wrth i'r cynllun ehangu.

Darparodd Dr Taylor fwy o fanylion am y cynllun a'r prif wersi y gellid eu dysgu o weinyddu Tir Gofal

yn ystod y flwyddyn gyntaf. Er mwyn cynnwys pob math o fferm ar draws Cymru gyfan yn y cynllun dyfeisiwyd system sgorio a graddio. Derbyniwyd rhyw 1380 o geisiadau ond roedd y system graddio yn golygu bod yn rhaid gwrthod nifer sylweddol o geisiadau o ansawdd da. Byddai'n rhaid i'r ffermwyr hynny y gwrthodwyd eu ceisiadau wneud cais eto gan arwain at gryn gost ac ymdrech ychwanegol. Yn ogystal roedd y ceisiadau a sgoriodd uchaf yn tueddu i fod yn ddrutach. Cynigiodd CCGC y dylid cadw'r system sgorio oherwydd ei bod yn darparu arf gwerthfawr ar gyfer targedu blaenoriaethau. Fodd bynnag, yn lle graddio ceisiadau, awgrymwyd y dylid derbyn pob un sy'n cyrraedd sgôr y tu hwnt i lefel trothwy benodol a'u rhoi ar restr aros hyd nes i arian ddod ar gael. Croesawodd Christine Gwyther yr ymagwedd hon ac fe'i hargymhellodd i'r Pwyllgor.

Gwahoddwyd barn y Pwyllgor ar y ffordd y dylid rheoli'r trosglwyddiad i Dir Gofal ar gyfer ffermydd sy'n symud o'r cynllun Tir Cymen a'r cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif. Byddai'n rhaid i'r ffermydd hyn wneud cais am Dir Gofal ac roedd pergyl y byddai rhai o'r manteision amgylcheddol yn cael eu colli. Awgrymwyd y gellid cyflwyno sgôr bonws er mwyn hwyluso'r camau i mewn i Dir Gofal.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- os derbyniwyd yr egwyddor o gael sgôr trothwy roedd angen ystyried y mecanwaith ar gyfer rheoli'r rhestr aros yn ofalus. Byddai angen rhywbeth mwy soffistigedig na system trefn dyddiadau yn unig;
- roedd angen eglurhad ynghylch y ffordd y câi ceisiadau newydd â sgôr uchel yn eu trin pan fyddai rhestr aros yn bodoli;
- roedd angen mynd i'r afael â'r diffyg ffermydd teuluol llwyddiannus canolig eu maint. Nododd y Pwyllgor y byddai'n well aros tan ar ôl y rownd nesaf o geisiadau, gan mai dim ond un rownd o geisiadau a oedd wedi'i chwblhau, er mwyn gweld a oedd y broblem ymddangosiadol yn parhau;
- byddai angen ystyried yn ofalus y lefel y trothwy fel na fyddai maint y rhestr aros yn dod yn anhydrin.
- nododd y Pwyllgor fod y Rheoliad Datblygu Gwledig yn ei gwneud yn ofynnol i bennu cyfnod gwneud ceisiadau bob blwyddyn;
- roedd yr ymateb gan y sector llaeth yn isel. Nododd y Pwyllgor fod hyn fwy na thebyg oherwydd bod ffermydd llaeth yn cael eu rheoli'n llymach;
- nododd y Pwyllgor fod CCGC yn disgwyl y byddai tua 460 o ffermydd yn derbyn cytundebau cyn y Pasg ac y byddai 140 arall yn derbyn cytundebau yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd yn debygol y byddai cyfnod gwneud ceisiadau newydd yn cael ei bennu wedyn;
- nododd y Pwyllgor fod CCGC yn benderfynol o dynnu costau gweinyddol Tir Gofal i lawr. Wrth i nifer y cytundebau gynyddu dylai'r costau gweinyddu, fel cyfran o gyfanswm y gyllideb, ostwng i tua 14% sy'n gymharol isel am y math hwn o gynllun;
- nododd y Pwyllgor fod CCGC yn cyflogi 19 swyddog maes i weinyddu Tir Gofal, wedi'u goruchwylio gan 5 rheolwr ardal. Roedd 12 gweinyddwr hefyd yn treulio rhan o'u hamser ar y cynllun;
- dylai ffermwyr allu cyrchu un eitem o restr o welliannau amgylcheddol yn hytrach na'r ymagwedd fferm gyfan sy'n angenrheidiol ar gyfer Tir Gofal. Nododd y Pwyllgor fod rhai

aelodau o Grë p Bioamrywiaeth Cymru yn cefnogi cynlluniau fferm gyfan ond bod angen trafod y mater ymhellach;
- roedd angen gofal wrth reoli'r trosglwyddiad o Dir Cymen ac ESA i Dir Gofal oherwydd y gallai dosbarthiad y cynlluniau hynny arwain at ogwyddiad daearyddol. Mynegwyd y farn hefyd mai annog ffermydd newydd i mewn i Dir Gofal ddylai gael blaenoriaeth;
- nododd y Pwyllgor fod arian y CE ar gael ar gyfer Tir Gofal ond nad oedd y swm llawn a ganiateir o dan y rheolau ar gael. Ni ellid defnyddio arian Amcan 1 ar gyfer y cynllun. Os cytunwyd ar y cynllun modiwleiddio arfaethedig byddai'n darparu arian ychwanegol ar gyfer Tir Gofal;

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Smith a'i dîm am eu briff defnyddiol.

*Pwyntiau gweithredu*

- Ystyried amserlennu adroddiad rheolaidd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar ei gyfrifoldebau, gan gynnwys Tir Gofal - **Yr Ysgrifenyddiaeth**
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor â chynigion manylach ar gyfer trin ceisiadau llwyddiannus am Dir Gofal - **CCGC a'r Ysgrifenyddiaeth**
- Trafod buddiannau cynllun amaeth-amgylcheddol ar sail rhestr er mwyn ategu Tir Gofal i'w amserlennu yn y Flaen-raglen waith - **Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 3: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad**

Dywedodd Christine Gwyther wrth y Pwyllgor fod papur ymgynghorol ar gynllun datblygiad cynaladwy'r Cynulliad "Cymru Gynaladwy - Dysgu i Fyw yn Wahanol" yn cael ei lansio y bore hwnnw gan y Prif Ysgrifennydd. Roedd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar y rhyngrwyd. Roedd crynodebau yn cael eu cynhyrchu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen a oedd hefyd ar gael mewn braille, print bras ac ar dâp sain. Talodd yr Ysgrifennydd Cynulliad deyrnged i waith Charles Coombs a Lisa Dobbins - sef Uned Datblygiad Cynaladwy y Cynulliad - wrth gynhyrchu'r ddogfen ymgynghorol. Roedd gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig rôl 'pencampwr' ymhlith y pwyllgorau gan adlewyrchu rôl Christine Gwyther ei hun yn y Cabinet. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- gallai slip ymateb â chwestiynau allweddol, yn debyg i'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer "Ffermio at y Dyfodol" ei gwneud yn haws i bobl ymateb;
- ymateb cychwynnol oedd bod angen i ddangosyddion y DU a nodir ar dudalen 8 gael eu teilwra ar gyfer Cymru;
- roedd angen rhoi mwy o bwyslais ar y gydberthynas rhwng Cymru a'r UE
- gofynnwyd am wybodaeth ar ddosbarthiad y ddogfen ymgynghorol.

Cyflwynodd Christine Gwyther bapur ar "Gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig" (yn atodiad 1). Dywedodd y byddai Asiantaeth Weithredol newydd y Cynulliad, a fyddai'n gyfrifol am reoli pob rhaglen a chronfeydd a ariennir gan Ewrop mewn grym erbyn 1 Ebrill. Gofynnwyd am fanylion pellach

o ran cyfrifoldebau rheolwyr llinell. Cytunwyd hefyd y dylid darparu adroddiad cryno ar yr astudiaeth arallgyfeirio a gomisiynwyd yn ddiweddar.

Gan barhau â'i hadroddiad, gwnaeth Christine Gwyther y pwyntiau canlynol:

- roedd wedi mynychu achlysur lansio'r cytundeb allforio cig eidion â Ven International yn Amsterdam yn gynharach yn y mis. Cytunwyd y dylid anfon llythyr o ddiolch gan y Pwyllgor i Welsh Lamb and Beef Promotions am eu gwaith wrth sicrhau'r cytundeb;
- roedd cyfanswm o £1.2 miliwn o grantiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer pum project prosesu bwyd gan ddenu £4.3 miliwn o gronfeydd preifat. Y cwmnïau llwyddiannus oedd Hufenfeydd Cydweithredol Cysylltiedig yn Llandyrnog, Ash Manor Cheese Company Ltd yn Wrecsam, Llanboidy Cheesemakers yn Login, Sir Benfro; T H Sutcliffe Ltd yng Nghasnewydd a Beacon Foods Ltd yn Aberhonddu;
- rhoddwyd grant arian cyfatebol o £185,000, fel rhan o Strategaeth Amaeth-Fwyd Cymru, i'r Gymdeithas Gwartheg Du Cymreig er mwyn helpu i wella bridiau;
- cyhoeddwyd adroddiad ar ymarferoldeb cwmni cydweithredol da byw Cymru yr wythnos ddiwethaf. Yr her allweddol i'r diwydiant oedd gwella ansawdd y stoc;
- disgwyliwyd i'r tri arolwg biwrocratiaeth, a arweinir gan y diwydiant, a gyhoeddwyd gan Nick Brown fis Medi diwethaf, gael eu cyhoeddi cyn bo hir;
- cynhaliwyd trafodaethau â'r undebau amaethwyr ar iawndal amaeth-ariannol. Byddai £85 miliwn yn sicr o gael ei dalu i ffermwyr y DU. Dywedodd Christine Gwyther wrth y Pwyllgor ei bod wedi ysgrifennu at Nick Brown yn pwyso y dylai'r swm llawn o hyd at £450 miliwn fod ar gael. Fodd bynnag, er bod rhan o'r arian yn dod o'r CE, roedd cost sylweddol i'r Trysorlys oherwydd gweithrediad cytundeb Fontainebleau a phrin oedd y gobeithion o lwyddo;
- darparwyd £0.25 miliwn i bob un o'r tri pharc cenedlaethol ar gyfer projectau datblygiad cynaladwy o dan Gronfa Datblygu'r Amgylchedd. Roedd £0.25 miliwn bellach ar gael ar gyfer projectau drwy weddill Cymru.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi siarad â'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddatblygiad Economaidd a Chadeirydd y Pwyllgor ynglí n > thargedau gwledig ar gyfer Amcan 1. Cytunwyd y byddai targedau gwledig yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar 9 Chwefror. Byddai Peter Fullerton yn mynychu'r cyfarfod ac yn adrodd yn ôl yn ddiweddarach y bore hwnnw i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

Ar iawndal amaeth-ariannol, dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb i gydnabod bod yr argyfwng ariannol byr dymor sy'n wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael ei waethygu gan gryfder y bunt. Yn dilyn trafodaeth gwnaeth y Pwyllgor benderfyniad unfrydol fel a ganlyn:

> *Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr achos dros iawndal amaeth-ariannol Ewropeaidd ar gyfer y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru.*
>
> *Yn o gystal mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y bunt gref yn ffactor hanfodol yn nhermau'r*

*argyfwng ariannol presennol sy’n wynebu amaethwyr yng Nghymru.*

*Mae’r Pwyllgor yn cefnogi Christine Gwyther, fel yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn ei chynrychioliadau ar ran y diwydiant i lywodraeth y DU er mwyn cyrchu a denu iawndal amaeth-ariannol.*

*Pwyntiau gweithredu*

- Darparu gwybodaeth ar ddosbarthu copïau caled "Cymru Gynaladwy" - **Bob Macey**
- Y pwyllgor i anfon llythyr at Welsh Lamb and Beef Promotions yn diolch iddynt am eu gwaith wrth sicrhau’r cytundeb â Ven International - **Cadeirydd a’r Ysgrifenyddiaeth**
- Eitem fer ar dargedau gwledig ar gyfer Dogfen Rhaglennu Unigol Amcan 1 i’w chynnwys yn gynnar ar yr agenda ar gyfer 9 Chwefror - **Yr Ysgrifenyddiaeth**
- Adroddiad bras i’w ddarparu ar yr astudiaeth amrywiaeth a gomisiynwyd yn ddiweddar - **Yr Ysgrifennydd Cynulliad**
- Esboniad bras o gytundeb Fontainebleau i’w atodi i’r cofnodion (gweler atodiad 2) - **Huw Brodie/Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 4: Modiwleiddio** - Papur ARD 01-00(p.2)

Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig sylwadau ar y papur ymgynghorol ar fodiwleiddio.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi cytuno i’r egwyddor o fodiwleiddio’n gyffredinol ar uchafswm o 5%. Dywedodd Christine Gwyther y cynigiwyd, mewn trafodaethau â gweinidogion amaethyddiaeth tiriogaethol eraill, y dylai modiwleiddio ddechrau ar 2.5% yn 2001-2002 gan godi i 4.5% yn 2006-2007. Dangosodd tablau a atodwyd i’r papur effaith modiwleiddio ar ariannu mesurau Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd yn bwysig nodi nad oedd addasu’r cynllun modiwleiddio arfaethedig yn opsiwn. Roedd yn rhaid cymhwyso modiwleiddio yn gyson ar draws y DU. Ni fyddai Lloegr a’r Alban yn derbyn unrhyw addasiadau i’r cynllun arfaethedig a olygai fod yn rhaid ei dderbyn fel yr oedd neu ni fyddai modiwleiddio yn mynd yn ei flaen o gwbl. Os oedd y Pwyllgor yn fodlon ar gynnwys y papur ymgynghorol drafft byddai’n cael ei gyhoeddi am gyfnod ymgynghorol o chwe wythnos.

Yn y drafodaeth gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- croesawyd y cyfle i ymgynghori.
- nododd y Pwyllgor mai dim ond i gymorthdaliadau uniongyrchol yr oedd modiwleiddio yn berthnasol ond bod cefnogaeth i’r sector llaeth, ar hyn o bryd, yn bennaf drwy gymorthdaliadau anuniongyrchol felly byddai’r effaith yn fach;
- mynegwyd pryder am y datganiad yn y papur ymgynghorol drafft na ellid eithrio ffermydd teuluol bach. Roedd angen mwy o hyblygrwydd, er enghraifft, yng nghyfradd gychwynnol modiwleiddio ac nid oedd y papur yn mynd i’r afael ag ailddosbarthu o ffermydd mawr i ffermydd bach a chanolig eu maint. Nododd y Pwyllgor mai’r gwirionedd oedd bod yn rhaid

derbyn neu wrthod y cynllun fel yr oedd;
- nododd y Pwyllgor mai tua £12 miliwn fyddai cyfran Cymru o'r 154 miliwn euro a ddyrannwyd i'r DU i ariannu camau Rheoleiddio Datblygu Gwledig, yn dibynnu ar y gyfradd gyfnewid.

Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyhoeddi'r papur ymgynghorol fel y'i drafftiwyd.

**Eitem 5: Costau Archwiliadau Glendid Mewn Llaethdai** - Papur ARD 01-00(p.3)

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd ar y bwriad arfaethedig i ddileu costau archwiliadau glendid mewn llaethdai.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi cytuno y byddai'r costau yn cael eu dileu yng ngoleuni'r problemau yr oedd y sector llaeth yn eu hwynebu. Dywedodd Christine Gwyther fod y Cabinet wedi penderfynu talu'r costau o gronfeydd canolog ond nad oedd y sefyllfa gyfreithiol wedi'i datrys eto. Cynigiodd y dylai'r £180,000 yng nghyllideb 1999-2000 a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer cynllun prosesu lloi ac na ellid bellach ei wario ar gostau archwilio hylendid llaeth gael ei ddargyfeirio i'r sector organig. Dywedodd Huw Brodie fod risg y byddai dileu'r costau yn cael ei ystyried fel cymorth gan y wladwriaeth ac y byddai eu dileu yng Nghymru yn gwahaniaethu yn erbyn amaethwyr yn Lloegr. Nid ymddangosai'r ddadl hon fel petai'n gyson â'r ffaith na chodwyd y costau yn yr Alban na Gogledd Iwerddon. Ni allai'r Cynulliad ddileu'r costau yn unochrog a byddai'n rhaid cyfeirio unrhyw gynnig i wneud hynny at y CE drwy'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF). Roedd trafodaethau yn parhau â MAFF, fel rhan o'r arolwg biwrocratiaeth, ac roedd MAFF yn ystyried dileu'r costau yn Lloegr. Ar hyn o bryd ymddengys mai dileu'r costau yng Nghymru a Lloegr a gynigiai'r gobaith gorau o lwyddo. Yn y drafodaeth gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- mynegwyd siom mai ychydig o gynnydd a wnaed ers i'r Pwyllgor wneud ei argymhelliad gwreiddiol. Cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor gefnogi dileu'r costau yn unochrog;
- heriwyd y farn gyfreithiol y byddai dileu'r costau yng Nghymru ond nid yn Lloegr yn tramgwyddo rheolau cymorth y wladwriaeth gan nifer o aelodau yn arbennig gan nad oedd y costau'n cael eu codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cytunwyd y byddai nodyn yn esbonio'r sail gyfreithiol ar gyfer y farn honno yn cael ei ddarparu;
- nododd y Pwyllgor na cheisiwyd cyngor cwnsler arbenigol hyd yn hyn ond bod yr opsiwn yn cael ei ystyried;
- nododd y Pwyllgor fod Christine Gwyther wedi ysgrifennu at Nick Brown yn pwyso arnol i ddileu'r costau yn Lloegr;
- petai Lloegr yn penderfynu dileu'r costau ni fyddai'n dderbyniol i MAFF wneud cyhoeddiad heb gysylltu â'r Cynulliad fel y digwyddodd gyda chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

Yn dilyn trafodaeth daeth y Pwyllgor i bederfyniad unfryd o fel a ganlyn:

> *Mae'r Pwyllgor yn cadarnhau ei ymrwymiad i ddileu Costau Archwiliadau Glendid Mewn Llaethdai yng Nghymru ac yn gofyn i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig*

*adrodd yn ôl yn rheolaidd ar ddatblygiad i'r perwyl hwn.*

*Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am frîff ysgrifenedigyn nodi'r dadleuon cyfreithiol sy'n ymwneud â dileu costau llaeth yn Nghymrua chymorth gan y wladwriaeth.*

Gan fod dros hanner y ceisiadau o dan y Cynllun Cymorth Organig yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y sector llaeth, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r £180,000 yng nghyllideb 1999-2000 bellach yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun hwnnw.

*Pwyntiau gweithredu*

- Nodyn i'w ddarparu yn nodi'r dadleuon cyfreithiol sy'n ymwneud â dileu costau llaeth yng Nghymru a chymorth gan y wladwriaeth yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor - **Peter Jones/Huw Brodie**

**Eitem 6: Cynllun Ffermwyr Newydd Ifainc** - Papur ARD 01-00(p.4)

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr astudiaeth ymarferoldeb a nodi'r cynigion ar gyfer cynnal yr astudiaeth.

Nodwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at gynllun ymddeol yn gynnar. Nododd y Pwyllgor nad oedd arian ar gael ar gyfer cynllun ymddeol yn gynnar.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cylch gorchwyl a nododd y cynigion ar gyfer cynnal yr astudiaeth.

**Eitem 7: Cofnodion cyfarfod 15 Rhagfyr -** Papur ARD 18-99(min)

Cynigiodd Mick Bates y dylid gwahodd Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Straen Gwledig i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor. Dywedodd hefyd fod angen i'r diwydiant fod yn ymwybodol o raddau'r gefnogaeth ar gynllunio busnes sydd ar gael i amaethwyr sy'n cysylltu â llinell gymorth. Cytunwyd y byddai nodyn yn cael ei ddarparu.

Yna mabwysiadodd y Pwyllgor y cofnodion

*Pwyntiau gweithredu*

- Nodyn i gael ei ddarparu ar raddau'r gefnogaeth ar gyfer cynllunio busnes sydd ar gael i amaethwyr yng Nghymru sy'n cysylltu â'r llinell gymorth - **Huw Brodie**

| | |
|---|---|
| **Yr Ysgrifenyddiaeth** | **Ionawr 2000** |

---

Atodiad 1

**Adroddiad llafar yr Ysgrifennydd Cynulliad i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, 26 Ionawr 2000**

**GWEITHREDU'R CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG**

1. Amlinellir y trefniadau gweithredu arfaethedig yn Adran 12 y Cynllun a ardystiwyd gan y Cynulliad yn y sesiwn lawn ar 14 Rhagfyr 1999.

2. Bydd gan Asiantaeth Weithredol newydd y Cynulliad reolaeth gyffredinol dros bob rhaglen a chronfa a ariennir gan Ewrop. Bydd felly yn gallu mabwysiadu ymagwedd gyson tuag at yr amryw fecanweithiau ariannu sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig Cymru. O ran Cynllun Datblygu Gwledig bydd yr Asiantaeth Weithredol yn rhedeg y Cynllun, yn ymgymryd â gwaith yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Monitro, ysgrifennu Adroddiadau Blynyddol, a rheoli prosesau monitro ac archwilio. Pan yn briodol, bydd yr Asiantaeth Weithredol yn derbyn cyngor polisi gan Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad.

3. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol mai'r bwriad yw dosbarthu'r rhan fwyaf o arian Ewrop drwy becynnau - sef cymysgedd o gynlluniau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, fel y bo'n briodol. Dyma'r ymagwedd sydd wedi'i datblygu o dan Amcan 1, ac mae hefyd yn debygol mai hon fydd yr ymagwedd ar gyfer Amcan 2. Er cysondeb, cynigir y dylid gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig ar yr un egwyddor. Mae papur EDC-02-00(p4) sy'n cael ei drafod yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd y bore yma yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar baratoadau ar gyfer Amcan 1 a rhaglenni Ewropeaidd eraill.

4. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys nifer o gamau, a chaiff y rhan fwyaf eu gweithredu drwy Becynnau Cenedlaethol. Cânt eu rheoli gan ystod o Gyrff Atebol, megis Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff Erthygl 33 - sy'n cynnwys camau datblygiad gwledig ehangach - ei gweithredu fel cyfres o becynnau lleol sy'n cael eu rhedeg gan bartneriaethau lleol, a fydd yn ategu gweithgareddau rhaglenni Ewropeaidd eraill o fewn yr ardaloedd hynny. Caiff y rheini sy'n rheoli pecynnau eu llywio gan Bartneriaeth ag aelodaeth y gellir ei chymharu ag aelodaeth Pwyllgor Monitro. Yn achos y cam Prosesu a Marchnata, arfaethir y bydd y Partneriaethau Amaeth-Fwyd - a sefydlir ar lefel genedlaethol a rhanbarthol i lywio Strategaeth Amaeth-Fwyd Cymru Gyfan - yn ymgymryd â'r rôl hon.

5. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn cynnwys cynigion ar gyfer mabwysiadu saith o'r camau a nodir yn y Rheoliad Datblygu Gwledig. Mae cynigion ar gyfer rheoli'r raglenni hyn fel a ganlyn:

| Cam | Pecyn cenedlaethol/lleol | Corff atebol |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Camau cyfunol: | | |
| Amaeth-amgylcheddol | Cenedlaethol | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Coedwigaeth ar ffermydd | Cenedlaethol | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Iawndal ar gyfer ardaloedd llai ffafriol | Cenedlaethol | AACCC |
| Camau unigol: | | |
| Hyfforddiant | Cenedlaethol | I’w benderfynu |
| Prosesu a marchnata | Cenedlaethol | WDA |
| Coedwigaeth | Cenedlaethol | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Erthygl 33 (datblygiad gwledig ehangach) | Lleol | I’w bennu mewn ymgynghoriad â phartneriaethau lleol |

6. Bydd tîm penodedig o fewn yr Asiantaeth Weithredol a fydd yn canolbwyntio ar raglenni a ariennir drwy Gronfeydd Gwarant ac Arweiniad Amaethyddol Ewrop (EAGGF). Bydd gan y staff hyn gyfrifoldeb dros sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig, camau gwledig o fewn Amcan 1 a menter LEADER+. Caiff gweithrediad rhai Blaenoriaethau (y camau unigol) ei gymhlethu gan y ffaith y bydd gwahanol rannau o Gymru yn tynnu arian i lawn o ddwy raglen wahanol, sef y Cynllun Datblygu Gwledig yn nwyrain Cymru ac SPD Amcan 1 yng ngorllewin Cymru. Dylai’r tîm gwledig bwriadedig o fewn yr Asiantaeth Weithredol a phenodiad un Corff Atebol i weithredu rhai pecynnau cenedlaethol ledled Cymru leihau’r anawsterau a allai godi.

7. Mae’r Rheoliad Datblygu Gwledig yn darparu ar gyfer Pwyllgor Monitro Rhaglenni i oruchwylio gweithrediad y Cynllun. Bwriedir y bydd y Pwyllgor hwn hefyd yn darparu’r monitro angenrheidiol ar gyfer y Fenter Gymunedol LEADER+. Cynigir y dylid sefydlu’r Pwyllgor ar yr un sail â Phwyllgor Monitro Amcan 1 a dylai gynnwys cynrychiolwyr o’r bartneriaeth ehangach o ddiddordebau gwledig yng Nghymru. Caiff rôl y Bartneriaeth Wledig yn y broses hon ei hystyried maes o law. Yn unol â chynlluniau Amcan 1, cydbwysedd aelodau y Pwyllgor Monitro fydd traean i’r llywodraeth (gan gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau’r Cynulliad), traean i bartneriaid cymdeithasol (gan gynnwys yr economi gymdeithasol). Disgwylir hefyd i bartneriaethau sy’n gyfrifol am gyflwyno pecynnau cenedlaethol a lleol adlewyrchu’r patrwm aelodaeth hwn.

Atodiad 2

**Cytundeb Fontainebleu**

Bu'r DU wastad yn gyfrannwr net i gyllideb yr UE h.y., ni fu'r derbyniadau erioed yn ddigon i wrthbwyso'r cyfraniad a wnaed. Yn fras, mae Cytundeb Fontainebleu yn nodi bod y DU yn adennill dwy ran o dair o'r cyfraniad a wnaed yn y flwyddyn flaenorol bob blwyddyn.

**Cefndir**

Os bydd Cymru, o ganlyniad i statws Amcan 1, yn codi arian o Ewrop yna mae'r DU gyfan yn well ei byd, os bydd y derbyniadau i weddill y DU yn aros yn gyson, ond nid swm llawn arian parod y Cronfeydd Strwythurol. Oherwydd Fontainebleu, bydd £1 o arian Strwythurol ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn yn gostwng ad-daliad y DU o'i chyfraniad net yn y flwyddyn ganlynol ddwy ran o dair. Felly, gan anwybyddu'r amseriad, mae'r DU yn ennill traean net am bob £1 gros y mae'n ei dderbyn.